

Y byd yn cynhesu

(gofalu am y blaned / dewrder / penderfyniad)

Ar fwrdd y *Nooderlicht* roedd mwyafrif o'r criw'n sâl môr. Roedd hi'n storm enbyd yn nyfroedd oerion yr Arctig ond roedd dau o'r criw, David Buckland a Simon Boxall, yn benderfynol o ddal ati gan stopio'r llong bob awr i ollwng cyfarpar a mesuryddion i grombil y môr brochus. Doedd gerwinder y stormydd ddim yn mynd i atal brwdfrydedd David Buckland rhag parhau ei dasg. Roedd y daith 700 milltir o Tromso, yn Norwy, i rewlifau'r Arctig yn rhan o fywyd David erbyn hyn. Gadawsai gludwch ei stiwdio yn Llundain i geisio argyhoeddi pobl o'r argyfwng mwyaf, yn ei dyb ef, sy'n wynebu'r blaned hon y dyddiau hyn, sef cynhesu byd-eang.

Clywodd am ymgyrch ym 1998, lle roedd dynion tywydd wedi bod yn mesur y tymheredd yn nyfroedd Pegwn y Gogledd. Bryd hynny roedden nhw wedi'u synnu gan y canlyniadau. Yn ôl pob tystiolaeth roedd dyfroedd y moroedd yn cynhesu a'r rhew yn dadmer. Ond roedd angen mwy o dystiolaeth ar y gwyddonwyr, mwy o ffigurau i gadarnhau eu damcaniaethau. Roedd arnyn nhw angen ffigurau o ganol Cefnfor yr Arctig – yr union le lle roedd Lliff y Gwlff yn mynd drwyddo. Penderfynodd Buckland, ac yntau yn hoff iawn o hwylio ar y môr, ei bod hi'n bryd iddo wneud mwy i helpu'r amgylchfyd na dim ond ailgylchu ei sbwriel.

Daeth i gysylltiad â Chanolfan Astudiaethau Morol yn Southampton a chynigiodd ei wasanaeth trwy ddweud y byddai'n barod i fynd ar fordeithiau i berfeddion Cefnfor yr Arctig. Yn 2003 cychwynnodd ugain o griw, gyda Buckland yn eu plith, i "Cape Farewell" gan wynebu stormydd geirwon ar eu taith. Buan iawn y dechreuwyd arni i fesur a chofnodi'r tymheredd. Roedd y ffigurau'n frawychus. Roedd tymheredd y 90 troedfedd uchaf o ddŵr yng ngogledd y Cefnfor yn 1 °C ond roedd y dŵr oddi tano yn codi i 7 °C. Ym 1976 pan fesurwyd y dyfroedd hyn roedd y tymheredd bryd hynny'n 3.5 °C. Roedd y ffigurau'n dweud y cyfan.

Bellach mae Buckland yn rhoi ei holl ymdrechion i ledaenu'r wybodaeth am gynhesu byd-eang. Ei nod yw dweud ei stori'n syml wrth blant ac ieuencid gan mai nhw fedr helpu'r amgylchfyd orau. Yn ei farn ef mae pobl ganol oed a phobl hŷn yn rhy hen i wneud nemor ddim. Plant ac ieuencid heddiw fydd dinasyddion yfory. Aeth â thîm ffilmio gydag ef ar y fordaith er

mwyn paratoi ffilm i'w dangos mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid. Mae'r ffilm yn dangos yr anawsterau a'r peryglon o weithio mewn amgylchfyd mor ddiffaith a digalon ond mae'r ffilm hefyd yn dangos y bywyd gwyllt sydd yn y rhan hon o'r byd a'r hyn a all ddigwydd i hwnnw petai'r rhewlifau'n diflannu am byth. Ym marn Buckland, "Os ydych chi'n dangos fod astudio cynhesu byd-eang yn gyffrous ac yn her i bawb heddiw, bydd myfyrwyr ac ieuenctid yn barod i ymateb i'r sefyllfa ac i wneud rhywbeth cadarnhaol."

Ar hyn o bryd mae'n awyddus, gyda help y Cenhedloedd Unedig, i baratoi rhaglen o waith ar gyfer myfyrwyr rhwng 14 a 15 oed ar leoedd fel Affrica a'r Dwyrain Pell. "Yn y pen draw, mae gen i gonsŷrn mawr am y blaned yma a dydw i ddim eisiau gadael i blant heddiw dyfu i fyny mewn diffeithwch."



Adnod: "Yr oedd y ddaear yn afluniaidd a gwag ac yr oedd tywyllwch ar wyneb y dyfnder, ac ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd." Genesis 1:2



Gweddi: Gwna fi, O Dduw, yn ymwybodol o'r peryglon sy'n wynebu ein planed y dyddiau hyn, ac os oes yna waith i'w wneud yna buaswn i'n hoffi bod yn rhan o'r gwaith hwnnw. Amen.



Trafod:

- Fyddech chi'n dweud mai dyn sy'n hoff o forwriaeth yn unig ydi Buckland?
- Ydych chi'n credu fod dyn yn gyfrifol am y cynhesu byd-eang?